20th February 2019 **Llannon Community Council**

Council Meeting

Minute no. 283 – Members Present

Councillors:

E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
A Owens
D Snaith
P Williams
L Williams
G Jones
M Jones
E James
L M Davies

Chairperson Councillor E James presided over the meeting

Also present: The Clerk and Community Development Officer/Responsible Finance Officer

Minute no. 284 – Apologies for Absence
The Clerk reported that Councillor D Jones had apologised as she anticipated arriving late.

Minute no. 285 – Declarations of Interest
A declaration of interest was received from Councillor E Dole as Leader of Carmarthenshire County Council and Councillor D Jones as County Councillor.

Minute no. 286 – Llannon Park
The Council received Kelly Neeson from the Llannon area who provided an update on the progress made with regard to negotiations with Coastal Housing on the Section 106 contribution of £50,000. The company has indicated that it is prepared to install the park equipment at nil cost however there is a need for this to be clarified. It was agreed that the Clerk will enter further negotiations with Coastal Housing to agree a form of procurement which will be appropriate for securing the section 106 payment.

Members of the Council offered a vote of thanks to Kelly for her work with the school and the community.

Chwefror 20fed 2019 **Cyngor Cymuned Llannon**

Cyfarfod y Cyngor

Cofnod rhif 252 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
A Owens
D Snaith
P Williams
L Williams
G Jones
M Jones
E James
L M Davies

Yr Cadeirydd, y Cynghorydd E James, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Hefyd yn bresennol: Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)/ Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC**).**

Cofnod rhif 253 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dywedod y Clerc bod y Cynghorydd D Jones wedi ymddiheurio gan ei bod yn disgwyl bod yn hwyr i'r cyfarfod.

Cofnod rhif 254 – Datgan Buddiant
Cafwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd E Dole gan taw fe yw Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, a gan y Cynghorydd D Jones gan ei bod hithau yn Gynghorydd Sir.

Cofnod rhif 286 – Parc Llannon
Croesawodd y Cyngor Kelly Neeson, sy'n hannu o ardal Llannon, a cafwyd ganddi ddiweddariad ynghylch y trafodaethau gyda Coastal Housing ynghlyn â'r cyfraniad Adran 106 o £50,000. Mae'r cwmni wedi dweud ei fod yn barod i osod offer yn y parc am ddim, ond mae angen eglurhad pellach o'r mater. Cytunwyd bod y Clerc yn trafod ymhellach gyda Coastal Housing er mwyn cytuno ar ffurf ar gaffael a fydd yn addas er mwyn derbyn y taliad Adran 106.

Roedd aelodau'r Cyngor am gynnig pleidlais o ddiolch i Kelly am ei gwaith gyda'r ysgol a'r gymuned.

Minute no. 287 – Signing of the Minutes – 16th January 2019 Council Meeting
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 288 – Matters Arising for Information
Minute no. 259 Lounge Improvements
The Clerk provided an overview of the current position with improvements to the lounge. It was noted that the proposed works to amend the wiring layout had been completely successfully including the repairs to the emergency lighting and provision of a new consumer unit to the circuits at the rear of the hall.

It was noted that the lounge is not currently used significantly, and it may be possible to get it renovated before the commencement of the grass cutting season. It was **resolved to** proceed with the following works to the lounge immediately.

- Removal of chair system
- Purchase of tables/chairs
- Renovate and decorate the room
- New carpet/flooring
- Purchase large television
- Amend wiring to future proof room utilising 3 void trunking.
- Purchase of blinds/curtains

Minute no. 289 – Mandy Owen
The Council received Mandy Owen who provided a report on views expressed at a recent staff meeting. A request was received for Laura to have more hours allocated to her contract in order that she can take over the provision of services to the luncheon club during the week with a corresponding reduction in the number of hours on Mandy's contract. It was agreed in principle to this amendment subject to the Clerk discussing the proposal in detail with the relevant staff prior to amending the contract documentation.

Councillors offered a vote of thanks to Mandy and staff for the excellent work in organising the take-away meals.

Minute no. 290 – Lighting Desk
It was reported that Mike Williams has organised a course for him to attend to be trained on the use of the Council's lighting desk. **Resolved** that the Council will fund Mike Williams to attend a course on the lighting desk.

Cofnod rhif 287 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor – Ionawr 16eg 2018
Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 288 – Materion yn Codi, er gwybodaeth
Cofnod rhif 259 – Gwelliannau i'r Lolfa
Cafwyd trosolwg gan y Clerc o'r sefyllfa gyfredol ynghylch gwneud gwelliannau i'r lolfa. Nodwyd bod y gwaith arfaethedig i newid trefn y gwifriad trydanol wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, gan gynnwys atgyweirio'r goleuadau argyfwng a gosod uned ffiwsys newydd ar gyfer y cylchedau yng nghefn y neuadd.

Nodwyd nad yw'r lolfa yn cael llawer o ddefnydd ar hyn o bryd, ac efallai y bydd hi'n bosibl gwneud y gwaith adnewyddu cyn bod y tymor torri'r glaswellt yn dechrau.
Penderfynwyd bwrw ymlaen ar unwaith gyda'r gwaith canlynol yn y lolfa:

- Gwaredu'r cadeiriau
- Prynu byrddau/cadeiriau
- Adnewyddu/ paentio a phapuro'r ystafell
- Gosod carped/ deunydd llawr newydd
- Prynu teledu mawr
- Newid gwifriad trydanol yr ystafell gan ddefnyddio cwndid 3-twll er mwyn diogelu'r ystafell at y dyfodol.
- Prynu cysgodlenni/cyrtens

Cofnod rhif 289 – Mandy Owen
Croesawodd y Cyngor Mandy Owen a roddodd adroddiad ynghylch y sylwadau a wnaethpwyd yn ystod cyfarfod staff diweddar. Derbyniwyd cais oddiwrth Laura am ragor o oriau i'w chytundeb, fel ei bod yn gallu cymryd drosodd darparu'r gwasanaeth yn y clwb cinio yn ystod yr wythnos, a byddai nifer yr oriau yng nghytundeb Mandy yn gostwng yn gyfatebol. Cytunwyd, mewn egwyddor, i wneud y newid hwn, ar yr amod bod y Clerc yn trafod y cynnig mewn manylder gyda'r staff priodol cyn newid dogfennaeth y cytundeb.
Roedd y Cynghorwyr wedi cynnig pleidlais o ddiolch i Mandy a'r staff am eu gwaith ardderchog yn trefnu'r prydau ar glud.

Cofnod rhif 290 – Desg Oleuo
Dywedwyd bod Mike Williams wedi trefnu cwrs i fynychu ei hun fel ei fod yn gallu dysgu sut i ddefnyddio desg oleuo'r Cyngor. **Penderfynwyd** bod y Cyngor yn ariannu Mike Williams er mwyn iddo allu mynychu'r cwrs hwn.

Minute no. 291 – Signing of the Minutes – 1st February 2019 Council LDP Meeting
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 292 – Finance Reports
Members of the Council received and considered the following previously circulated finance reports:

- Bank Reconciliation.
- Report on invoices for payment.
- Report on invoices already paid.
- Report on income received.
- Report on Expenditure against Budget.

It was **resolved** to accept the reports.
The RFO reported that she has concerns regarding the fact that there continue to be delays in getting the internet banking resolved. This was noted.

Minute no. 293 – Councillor A Owens
Councillor Owens entered the meeting at 8.00 pm.

Minute no. 294 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act
Cllr D Jones left the meeting for the during of discussions on planning and returned when it had concluded.
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
Reason: Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

(a) Applications

S/38322 Variations of condition 2, 10 and 11 and removal of condition 12 on S/37793 (to allow for a separate entrance) at land at Ty Newydd Llwyn Teg, Llannon, Llanelli. Dolfey Burns.
S/38346 Outline planning for 2 detached dwellings at land adjacent to Singleton Road, Tumble. Thomas.
S/38357 Single storey rear extension for use as a café/coffee shop dining area at 1 Heol Y Bryn, Upper Tumble. Mrs Catherine Jayne McPherson.

(b) Decision Notices Granted
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
None received.

Cofnod rhif 291 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor – Chwefror 1af 2019 Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 292 – Adroddiadau Ariannol

Roedd Aelodau'r Cyngor wedi derbyn ac ystyried yr adroddiadau ariannol a ddosbarthwyd yn flaenorol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau sydd i'w talu
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau a dalwyd eisoes
- Adroddiad yn rhestru'r incwm a dderbyniwyd
- Adroddiad yn rhestru'r Gwariant yn erbyn y Gyllideb

Penderfynwyd derbyn yr adroddiadau.
Dywedodd y SCC bod ganddi bryderon am y ffaith bod dal oedi wrth ddatrys trafferthion ynghylch materion bancio ar y we. Nodwyd hyn.

Cofnod rhif 293 – Y Cynghorydd A Owens
Cyrhaeddodd y Cynghorydd A Owens y cyfarfod am 8.00 yh.

Cofnod rhif 294 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref
Yn ystod y trafodaethau ynghylch cynllunio gadawodd y Cyng D Jones yr ystafell, gan ddychwelyd wedi iddynt ddod i ben.

(a) Datblygiad Arfaethedig
Penderfynwyd bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

(a) Ceisiadau

S/38322	Amrwyio amodau 2,10 ac 11 a gwaredu amod 12 o S/37793 (caniatau mynediad ar wahan) ar dir yn Nhŷ Newydd, Llwyn Teg, Llannon, Llanelli. Dolfey Burns.
S/38346	Cais cynllunio amlinellol am 2 dŷ annedd preswyl ar dir ger Heol Singleton, Y Tymbl. Thomas.
S/38357	Estyniad un llawr i'r cefnlun, i'w ddefnyddio fel café /siop goffi/ardal fwyta yn 1 Heol Y Bryn, Tymbl Uchaf. Mrs Catherine Jayne McPherson.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd
Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau

(c) Decision Notices Refused
None received.

(d) Decision Notices Appealed
None received.

Minute no. 295 – CDO Report
The CDO provided an overview of her previously circulated report on community development matters. The following matters were considered:

- It was agreed that the dementia awareness training will take place on Monday 29th April.
- It was agreed that the appointed sub-committee to consider the completion of the Wellbeing Annual Report will be convened to consider this matter on Tuesday 5th March at 7 pm.

Minute no. 296 – Operations Manager's Report
The Operations Manager provided an overview of the previously circulated report. The following points were noted:

- There has been a recent inspection by the Environmental Health Department regarding the Council's health rating. It was recommended that staff consider wearing hair protection.
- **Resolved** to support all staff working in the kitchen to obtain a basic food hygiene certificate.

Minute no. 297 – Staff Hourly Rates
The Council received a comparable report on the differentials between each staff member and a comparable analysis to the living wage and the real wage. **Resolved** to refer the matter to the Personnel Committee.

Minute no. 298 – Phone System
Cllr G Jones provided a report on the investigation he is completing on options for a new phone system. It was noted he is awaiting some further quotations for the provision of a managed system. **Resolved to** give authority to Cllr G Jones and the CDO/Clerk to proceed with the purchase of a phone system.

Minute no. 299 – Community Survey
Members of the Council received a draft copy of the report on survey results as collected as part of the LDP review. **Resolved** to accept in principle the reports however there is a need to amend the pie charts as they are identical in one report. It was agreed that members would forward any further comments on the content of the reports to Christine Davies by email.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

Cofnod rhif 295 – Adroddiad y SDC
Cafwyd trosolwg gan y SDC o'i hadroddiad, a ddosbarthywd yn flaenorol, am faterion datblygu cymunedol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol:

- Cytunwyd cynnal yr hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ar ddydd Llun Ebrill 29ain.
- Cytunwyd y bydd yr is-bwyllgor apwyntiedig yn cyfarfod ar ddydd Mawrth, Mawrth 5ed am 7yh i ystyried cwblhau'r Adroddiad Llesiant Blynyddol.

Cofnod rhif 296 – Adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau

Cafwyd trosolwg gan y Rheolwr Gweithrediadau o'i adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yn ddiweddar cynhaliwyd arolwg gan yr Adran Iechyd Amgylcheddol ynghylch system mesur iechyd y Cyngor. Argymhellwyd bod aelodau staff yn gwisgo gorchudd gwallt.
- **Penderfynwyd** cefnogi holl staff y gegin i ennill tystysgrif sylfaenol hylendid bwyd.

Cofnod rhif 297 – Cyfradd yr Awr Tâl y Staff
Roedd y Cyngor wedi derbyn adroddiad cymharol am y gwahaniaethau rhwng pob aelod o staff, a dadansoddiad cymharol o'r cyflog byw a'r gwir gyflog. **Penderfynwyd** cyfeirio'r mater at sylw'r Pwyllgor Personél.

Cofnod rhif 298 – System Ffonau
Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd G Jones am ei ymchwil i'r opsiynau sydd ar gael am system ffonau newydd. Nodwyd ei fod yn aros am ragor o ddyfynbrisiau i ddarparu system a reolir. **Penderfynwyd** awdurdodi'r Cynghorydd G Jones a'r SDC/ y Clerc i fwrw ymlaen i brynu system ffonau newydd.

Cofnod rhif 299 – Arolwg Cymunedol
Roedd aelodau'r Cyngor wedi derbyn copi drafft o'r adroddiad ynghylch canlyniadau'r arolwg a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol**. Penderfynwyd** derbyn, mewn egwyddor, yr adroddiad, ond bod angen diwygio'r siartiau cylch, gan eu bod, mewn un adroddiad, yr union yr un fath. Cytunwyd y byddai'r aelodau yn cyfeirio unrhyw sylwadau pellach am gynnyws yr adroddiadau drwy ebost at Christine Davies.

Minute no. 300 – County Councillor Reports

Councillor E Dole reported on the following matters:

- Llandeilo Road will be closed from next Sunday for tarmac work.
- Site visit to be arranged at Bryn Du to look at tarmacing the road after recent engineering works.
- Agreed that a new public waste recycling site is to be located at Leekes.

Councillor D Jones provided a report on matters dealt with in the previous month and agreed to send an email to all members listing the details concerned.

Councillor L Williams reported a problem of litter at the site opposite Aldi in Cross Hands. It was noted this land is privately owned by Aldi.

Minute no. 301 - General Correspondence

Resolved to note the following general correspondence onto the minutes: -

Writer	Subject
Welsh Government	Collective Roles of Councils
JCI Heating	Quotation for zoning of heating system
Carmarthenshire County Council	Environmental guidance for Town and Community Councils when managing land
One Voice Wales	Membership renewal request
Carmarthenshire County Council	Protocols in event of a Royal death.
Carmarthenshire County Council	Vacancy in the Office of Community Councillor for the Cross Hands ward.

Minute no. 302 – Financial Assistance

It was **resolved** to offer the following organisations a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

Welsh Air Ambulance	£150.00
Llangollen Eisteddfod	£150.00
Capel Y Drindod (previously agreed) same as previous	£150.00

Minute no. 303 – Standing Orders

It was agreed to suspend standing orders in order to enable the continuation of business beyond 9pm.

Minute 304 - Standing Orders and Delegated Authority - Terms of reference

Resolved to refer this matter to the next meeting.

Cofnod rhif 300 – Adroddiadau y Cynghorwyr Sir

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd E Dole ynghylch y materion canlynol:

- Bydd Heol Llandeilo ar gau o ddydd Sul nesaf ymlaen oherwydd gwaith tarmacadam.
- Trefnir ymweliad safle i Bryn Du i ymchwilio'r posibilrwydd o osod tarmacadam ar yr heol ar ôl y gwaith peirianyddol diweddar.
- Cytunwyd lleoli safle ailgylchu gwastraff cyhoeddus newydd yn Leekes

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd D Jones ynghylch materion a dddeliwyd â nhw yn y mis a aeth heibio, a chytunodd i anfon ebost at yr holl aelodau yn rhestru'r manylion penodol.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd L Williams am broblem sbwriel ar y safle gyferbyn ag Aldi yn Cross Hands. Nodwyd taw tir preifat, yn eiddo i Aldi, yw hwn.

Cofnod rhif 301 – Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth gyffredinol ganlynol i'r cofnodion:

Awdur	Pwnc
Llywodraeth Cymru	Rolau ar y Cyd Cynghorau
JCI Heating	Dyfynbris ar gyfer rhannu'r system wresogi i barthau
Cyngor Sir Caerfyrddin	Canllawiau amgylcheddol i Gynghorau Tref a Chymuned ynghylch rheoli tir
Un Llais Cymru	Cais i adnewyddu aelodaeth
Cyngor Sir Caerfyrddin	Protocol adeg marwolaeth Brenhinol
Cyngor Sir Caerfyrddin	Lle gwag am Gynghorydd Cymuned i gynrychioli ward Cross Hands

Cofnod rhif 302 – Cais am Gymorth Ariannol

Penderfynwyd cynnig rhodd i'r sefydliadau canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Ambiwlans Awyr Cymru	£150.00
Eisteddfod Llangollen	£150.00
Capel Y Drindod (cytunwyd yn flaenorol) fel yn y gorffennol	£150.00

Cofnod rhif 303 – Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 304 – Rheolau Sefydlog ac Awdurdod Dirprwyedig – Cylch Gorchwyl

Penderfynwyd cyfeirio'r mater hwn i'r cyfarfod nesaf.

Minute no. 305 –Tumble Hall

a) Licensable Activity
Resolved to note that the following licensable activities were ratified by the Council.
Reason – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003)

22nd February	Welsh Night
28th February	Merched y Wawr
1st March	Country & Western
8, 9th March	Take That Show
22nd March	Country & Western
24th March	Birthday Party
30th March	Wedding

Minute no. 306 – Councillor Reports

- Cllr L Williams reported that on the 12th March a litter pick will be scheduled at Llannon.
- Cllr L Davies enquired as to when the red refuse box will be placed in Tumble car park. Cllr D Snaith reported that the red refuse box will be provided asap.
- Concern was raised that the people are parking outside the hall on frequent occasions. It was agreed that the staff will place cones out on the road to prevent this issue where appropriate.
- Cllr A Owens reported that there is a problem at the Bancyffynnon site with trees hanging down preventing the residents from turning at the head of the road. This matter will be followed up by the County Councillors.
- Cllr N Holman requested for Police to attend as parents are parking on the chevrons outside the school. It was agreed that this matter will be raised at the next PACT meeting.
- Cllr G Jones enquired as to what progress is being achieved with the installation of the defibrillators. **Resolved** that Yogi Dai will be requested to complete the work before the next meeting.

Meeting ended at 9.30pm

Signed ..... Date .....
Chairman

Cofnod rhif 305 – Neuadd y Tymbl

a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded

Penderfynwyd nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.

Rheswm – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

Licensable Activity

Chwefror 22ain	Noson Gymreig
Chwefror 28ain	Merched y Wawr
Mawrth 1af	Canu Gwlad
Mawrth 8fed, 9fed	Sioe 'Take That'
Mawrth 22ain	Canu Gwlad
Mawrth 24ain	Parti Penblwydd
Mawrth 30ain	Priodas

Cofnod rhif 306 – Adroddiadau'r Cynghorwyr

- Dywedodd y Cyng L Williams bod sesiwn gasglu sbwriel wedi'i threfnu ar Fawrth 12fed yn Llannon.
- Gofynnodd Cyng L Davies pryd fe fydd bocs coch yn mynd I fod ar gael yn maes parcio'r Tymbl. Dywedodd y Cyng D Snaith y bydd bocs sbwriel coch yn cael ei osod cyn gynted ag y bo modd, fel bod casglwyr sbwriel yn gallu ei ddefnyddio i adael sbwriel. Mynegwyd pryder bod pobl yn parcio'n aml y tu fas i'r neuadd. Cytunwyd bod y staff, pan yn briodol, yn gosod conau ar yr heol i atal hyn rhag digwydd.
- Dywedodd y Cyng A Owens bod problem ar safle Bancyffynnon gan fod canghennau'r coed yn hongian lawr ac yn atal y preswylwyr rhag troi (eu ceir) ar ben yr heol. Bydd y Cynghorwyr Sir yn mynd i'r afael â'r mater hwn.
- Roedd y Cyng N Holman wedi gofyn am bresenoldeb yr Heddlu, gan fod rhieni yn parcio ar y llinellau onglog y tu fas i'r ysgol. Cytunwyd codi'r mater yn y cyfarfod PACT nesaf.
- Gofynnodd y Cyng G Jones pa gynnydd sy' wedi'i wneud parthed â gosod y diffibrilwyr. **Penderfynwyd** gofyn i Yogi Dai i orffen y gwaith cyn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh

Llofnod ..... Dyddiad .....

Cadeirydd